# Diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru
# Mehefin 2019

Dyma'r diweddaraf mewn cyfres o ddiweddariadau chwarterol, ar gyfer defnyddwyr ystadegau yng Nghymru, ar ein datblygiadau, ymgynghoriadau a chynlluniau diweddaraf.

Gellir gweld rhestr lawn o'n cyhoeddiadau mwyaf diweddar yn ein calendr cyhoeddi.

## Yr economi a'r farchnad lafur

Yn ogystal â'r diweddariadau misol i'n hystadegau economaidd allweddol, ymhlith y diweddariadau diweddar eraill mae ystadegau ar gynhyrchiant haearn a dur, proffiliau rhanbarthol ar gyfer y farchnad lafur ac economaidd, dangosyddion allbwn byrdymor (datganiad ar y cyd ar gyfer gwasanaethau marchnad, cynhyrchu ac adeiladu rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2018), cymudo, gwariant ymchwil a datblygu ac allforion.

Mae SYG wedi datblygu amcangyfrifon ystadegol chwarterol newydd o gynnyrch domestig gros (GDP) yng Nghymru, a gyhoeddir fel rhan o ddatganiad newydd sef “GDP for Countries and Regions of the UK” ym mis Gorffennaf.

## Addysg

Mae ein datganiad blynyddol o lefelau cymwysterau uchaf oedolion wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar, yn ogystal â'n diweddariad chwarterol o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Cyhoeddir y datganiad NEET blynyddol ym mis Gorffennaf.

Ym mis Ebrill gwnaethom gyhoeddi ein hail flwyddyn o ystadegau arbrofol yn ymwneud â mesurau cyflawni dysgu ôl-16 (y chweched dosbarth a sefydliadau addysg bellach).

Mae ein hystadegau diweddaraf ar raglenni dysgu prentisiaethau a ddechreuwyd wedi'u cyhoeddi, a ategir gan ddangosfwrdd rhyngweithiol.

## Yr Amgylchedd a Thai

### Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18

Ers cyhoeddi'r prif ganlyniadau o Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18, mae dau adroddiad arall wedi'u cyhoeddi erbyn hyn:

- Asesiad o elfennau o Safon Ansawdd Tai Cymru

- Amcangyfrifon tlodi tanwydd Cymru (prif ganlyniadau) 2018
- Bydd adroddiad manylach ar amcangyfrifon tlodi tanwydd ar gael yn yr haf a ddilynir gan adroddiadau pwnc-benodol eraill o Arolwg Cyflwr Tai Cymru drwy gydol y flwyddyn.

Mae data'r Arolwg wedi'u hychwanegu at y dangosydd canlyniadau ar ein tudalennau gwe, a ehangir ymhellach wrth i fwy o waith dadansoddi gael ei gwblhau.

Bydd y set o ddata'r Arolwg nad oedd yn ddatgelol ar gael yn fuan ar Archif Data'r DU, gyda data manylach ar gael yn uniongyrchol oddi wrth dîm Arolwg Cyflwr Tai Cymru, o dan drwydded arbennig.

### Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru

Ar ôl creu fersiwn prawf cysyniad o'r Adnodd yn 2018, gwelwyd y gwaith yn lleihau yn ystod yr hydref er mwyn canolbwyntio ar ddadansoddi canlyniadau Arolwg Cyflwr Tai Cymru. Mae'r gwaith ar yr Adnodd wedi ailddechrau erbyn hyn ac rydym yn gweithio gydag Uned Ymchwil Data Gweinyddol Llywodraeth Cymru er mwyn rhoi achosion busnes i SYG ar gyfer rhannu data perthnasol o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol. Mae'r setiau data hyn yn cynnwys data Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, yr Adran Gwaith a Phensiynau ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Caiff data presennol yr adnodd eu trosglwyddo i'r datrysiad lletya hirdymor (Llwyfan e-Ymchwil Diogel y DU) dros y misoedd nesaf a byddwn yn ychwanegu gwybodaeth am y defnydd o ynni, mesuryddion deallus a mesuryddion rhagdalu ac yn ymgysylltu â darparwyr tai cymdeithasol gyda'r nod o gael gafael ar eu data rheoli stoc.

### Allbynnau ystadegol tai

Mae'r holl ddatganiadau ar gael yn yr gwefan.

### Digartrefedd

- Mae Tîm Cysoni GSS (Saesneg yn unig) yn gyfrifol am gynnal a datblygu amrywiaeth o egwyddorion a safonau ar gyfer data gweinyddol cyson sydd wedi'u cymeradwyo'n llawn.  Mae'r tîm cysoni wedi bod yn edrych ar ymarferoldeb cyflwyno diffiniad cyson o ddigartrefedd ledled y DU a chafodd yr adroddiad cychwynnol (Saesneg yn unig) ar y canfyddiadau ei gyhoeddi ddydd Iau 28 Chwefror 2019.
- Ar 25 Chwefror, cyhoeddodd SYG ‘Deaths of homeless people in England and Wales, 2013-2017 - LA level data’ (Saesneg yn unig).
- Yn ddiweddar cynhaliodd y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau wiriad cydymffurfiaeth (Saesneg yn unig) o'r ystadegau ar Ddigartrefedd yng Nghymru. Daeth i'r casgliad y dylai'r ystadegau hyn barhau i gael eu dynodi'n Ystadegau Gwladol.

- Digartrefedd Unigol – Mae Dr Ian Thomas wrthi'n cynnal prosiect ar ymarferoldeb casglu, cyflwyno a dadansoddi data ar lefel unigol mewn perthynas â digartrefedd statudol yng Nghymru. Mae'r prosiect yn cael ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru a CaCHE. Disgwylir i'r adroddiad cychwynnol ar y canfyddiadau gael ei gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2019.

### Amcangyfrifon o'r angen a'r galw am dai

Cafodd Amcangyfrifon o'r Angen am Dai yng Nghymru eu cyhoeddi ar 30 Ionawr 2019. Cyhoeddodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ddatganiad ysgrifenedig ar yr un diwrnod. Mae'r amcangyfrifon yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2018/19 a 2037/38 ac fe'u cyflwynir ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Maent yn ymwneud â'r angen am unedau tai ychwanegol ac yn seiliedig ar amcangyfrifon o angen presennol nas diwallwyd ac angen newydd. Defnyddir yr amcangyfrifon i lywio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a datblygu polisi tai. Cyhoeddir amcangyfrifon fesul deiliadaeth tai ar 5 Mehefin 2019.

## Iechyd

### Adnodd ystadegau iechyd a gofal rhyngweithiol

Er mwyn helpu defnyddwyr i ddod o hyd i ystadegau iechyd a gofal mae adnodd rhyngweithiol ar gael. Mae'r adnodd yn darparu datganiadau presennol a blaenorol sy'n cwmpasu ystod eang o bynciau yn ymwneud ag iechyd a gofal yng Nghymru. Gellir chwilio yn ôl pwnc, sefydliad, ardal ddaearyddol neu air allweddol. Mae'n cael ei ddatblygu o hyd a byddem yn croesawu adborth arno.

Am ragor o wybodaeth e-bostiwch ystadegau.Iechyd@llyw.cymru

## Arolwg cenedlaethol

Mae'r holl waith dadansoddi a gynlluniwyd ar gyfer canlyniadau arolwg 2017-18 wedi'i gwblhau erbyn hyn. Mae'r holl fwletinau a gyhoeddwyd ar gael ar wefan yr Arolwg Cenedlaethol.

Rydym wrthi'n paratoi'r canlyniadau ar gyfer arolwg 2018-19. Cyhoeddir y prif ganlyniadau ar 18 Mehefin 2019.

Cynhelir Arolwg Cenedlaethol 2019-20 ar hyn o bryd, a bydd canlyniadau cwestiynau 2019-20 ar gael ym mis Mehefin 2020.

Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan yr Arolwg Cenedlaethol, neu e-bostiwch Arolygon@llyw.cymru.

## Cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb

### Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019

Ar 10 Ebrill 2019 gwnaethom gyhoeddi'r dogfennau 'Crynodeb o'r ymatebion' ac 'Ymatebion llawn' yn ymwneud â'n hymgynghoriad ar gynigion ar gyfer dangosyddion a fydd yn bwydo i mewn i'r Arolwg nesaf, a ddiweddarir ym mis Tachwedd 2019. Mae lle i ddatblygu'r dangosyddion o hyd, a byddwn yn rhoi mwy o ddiweddariadau ar hyn dros yr haf. Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr Arolwg ar-lein.

### Tlodi

Ar 28 Mawrth 2019 cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ystadegau wedi'u diweddaru ar Gartrefi oedd Islaw Incwm Cyfartalog a Dynameg Incwm (ystadegau arbrofol ar dlodi parhaus). Ar yr un pryd gwnaethom gyhoeddi ystadegau allweddol ar gyfer Cymru ar dudalennau tlodi incwm cymharol, amddifadedd materol a thlodi parhaus gwefan Llywodraeth Cymru.

Gwnaethom hefyd ddiweddaru ein dadansoddiad manylach o setiau data Cymru, sy'n ystyried nodweddion economaidd, teulu, ethnigrwydd ac anabledd cartrefi sydd mewn tlodi incwm cymharol. Ceir dadansoddiadau ar gyfer plant, pensiynwyr a phobl o oedran gweithio. Mae'r data a'r dadansoddiadau cryno ar ffurf sleidiau a phwyntiau allweddol i gyd ar gael ar ein tudalennau gwe.

### Cydraddoldeb

Ar 11 Mehefin 2019 byddwn yn cyhoeddi set o dablau StatsCymru sy'n nodi data ar ethnigrwydd, statws anabledd, crefydd a statws priodasol. Caiff y dadansoddiad hwn ei lunio ar sail set ddata sy'n cyfuno 3 blynedd o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.

Anfonwch eich adborth atom, neu gofynnwch am ragor o wybodaeth: e-bostiwch ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru

## Trafnidiaeth

Rydym wedi cyhoeddi diweddariadau i ystadegau ar safleoedd clwstwr damweiniau ar Rwydwaith Ffyrdd Traws-Ewropeaidd Cymru, cludiant awyr ym Maes Awyr Caerdydd (teithwyr, cyrchfannau a nwyddau), trafnidiaeth rheilffyrdd (teithiau, marwolaethau, troseddau a boddhad teithwyr), a cherbydau gwasanaethau cyhoeddus (bysiau a thacsis). Rydym hefyd wedi cyhoeddi datganiad newydd ar ddamweiniau ar y ffordd ac anafusion (ble, pryd a phwy?), sy'n cynnwys dadansoddiadau atodol i'r prif ddatganiad ystadegol a gyhoeddwyd yn 2018.

## Llesiant Cymru

Byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol Llesiant Cymru ym mis Medi, ac eleni rydym yn newid fformat yr adroddiad. I ddysgu mwy am hyn darllenwch ddiweddariad y Prif Ystadegydd.

I'n helpu i lunio allbynnau sy'n diwallu eich anghenion cysylltwch â ni er mwyn rhoi gwybod i ni sut rydych yn defnyddio cynhyrchion Llesiant Cymru.

## Y Gymraeg

Ddiwedd mis Mawrth cafodd canlyniadau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (Saesneg yn unig) ar y Gymraeg am y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2018 eu cyhoeddi ar wefan StatsCymru.

I gyd-fynd â'r canlyniadau hyn, cyhoeddodd y Prif Ystadegydd flog yn egluro cefndir y data, yr hyn maent yn ei ddangos, ac yn trafod sut y dylent gael eu dehongli.

Ar 29 Mai 2019 cafodd erthygl ystadegol ei chyhoeddi a gyflwynodd ganfyddiadau'r Arolwg yn fanylach ac a wnaeth hefyd ystyried pam bod y canlyniadau yn wahanol i'r cyfrifiad (y brif ffynhonnell a ddefnyddir i fesur nifer y siaradwyr Cymraeg).

## Manylion cyswllt ar gyfer ystadegau Llywodraeth Cymru

### Ymholiadau cyffredinol ynghylch ystadegau

E-bost: desg.ystadegau@llyw.cymru

Ffôn: 03000 255050

### Pwnc-benodol

Manylion cyswllt ar gyfer ystadegau

Twitter

YstadegauCymru

### Cylchlythyr electronig a gwasanaeth hysbysiadau Llywodraeth Cymru

Newyddion a hysbysiadau

**Ymholiadau gweinyddol**

E-bost: GweinydduGGD@llyw.cymru